Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bethel

**Ysgol Gynradd Bethel**
**Bethel**
**Caernarfon**
**Bethel**
**Gwynedd**
**LL55 1AX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Bethel

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Bethel |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Amanda Hughes |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | |
| Person â gofal | Gwenno Thomas a Margaret Williams |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | Dwy a hanner oed i bedair oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 22 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 08:45 a 14:45 yn ystod tymhorau'r ysgol |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy’n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae’n darparu gwasanaeth sy’n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy’n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio’r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mis Medi 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mis Ionawr 2014 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 17/05/2022 |
| Mae pob plentyn yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod llyfrau darllen y tu mewn i'r adeilad yn gwbl hygyrch i'r plant

A2 Gwella'r cyfleoedd i blant symud yn annibynnol rhwng yr adeilad a'r tu allan

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus, yn frwdfrydig ac yn barod i chwarae’n syth. Maent yn mynegi eu teimladau’n glir ac yn gwneud dewisiadau effeithiol ynglŷn â ble maent am ddymuno chwarae a gyda phwy maent am rannu'r profiadau. Er enghraifft, maent yn penderfynu naill ai i baratoi bwyd yn yr ardal chwarae rôl neu i gwblhau jig-sô.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn frwdfrydig, yn weithgar ac yn dangos cymhelliant, dyfalbarhad a gwydnwch yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn ymateb yn eiddgar i heriau a chefnogaeth yr ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn ymateb i holi'r ymarferwyr am drychfilod a malwod yn ddeallus ac maent yn ymestyn y drafodaeth ymhellach wrth sôn am gynefin y creaduriaid. Mae'r rhan fwyaf yn meddu ar fedrau dychmygol da, wrth iddynt drafod y tylwyth teg sy’n byw mewn tai bach yn yr ardal arddio. Mae’r rhan fwyaf yn mynegi eu syniadau a’u hoffterau yn effeithiol gan wybod y bydd eu syniadau’n cael eu parchu gan ymarferwyr, fel dewis i fwyta byrbryd cyn mynd allan i chwarae yn yr ardal allanol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio’n dda ac maent yn gweithredu'n hyderus wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol. O ganlyniad, maent yn rhannu ac yn cydweithio'n bwrpasol gyda'u cyfoedion. Maent yn greadigol ac yn dychmygu sefyllfaoedd bywyd go iawn yn ardderchog, fel defnyddio blociau adeiladu i greu pibellau dŵr i ddiffodd tân. Mae'r rhan fwyaf yn ymfalchïo yn y cyfleoedd arbennig sydd ar gael iddynt, fel creu ardal drychfilod ac yna chwilio am bryfed gyda chwyddwydrau ac offer cloddio. Yn ogystal, maent yn arbrofi'n ddeallus wrth suddo ac arnofio gwrthrychau yn y twba dŵr ac astudio blodau a llysiau yn tyfu ar ôl iddynt blannu'r hadau.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau annibynnol da. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo yn effeithiol ac yn tynnu eu cotiau a gosod eu bagiau yn drefnus. Yn ogystal, maent yn paratoi eu ffrwyth a'u diodydd yn ddestlus ar ôl iddynt wagio'u bagiau yn annibynnol cyn amser byrbryd. Maent yn ymddwyn yn wych, yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ymarferwyr, plant eraill ac ymwelwyr. Er enghraifft, maent yn mwynhau ymestyn croeso i ymwelwyr ac maent yn gwenu'n llydan wrth ddweud ‘bore da’. Mae bron bob plentyn yn cyd-chwarae’n dda ac yn mwynhau cwmni ei gilydd wrth esgus bwyta ffrwythau ac yfed paned o de yn yr ardal chwarae rôl.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae diddorol, y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored. Maent yn hoffi chwarae mewn grŵp ac mae ychydig ohonynt yn cymryd mantais o’r ardaloedd deniadol a thawel i fyfyrio a chynnal clonc gyda ffrind. Mae'r rhan fwyaf yn dangos balchder wrth drafod yn fwriadus yr arddangosfeydd lliwgar, sydd yn dathlu eu creadigrwydd, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o hunan-werth a pherthyn ymysg y plant.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae’r ymarferwyr yn gosod disgwyliadau a blaenoriaethau uchel i gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u cyfrifoldebau ac maent yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn fwriadus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o’u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a’u gallu. Er enghraifft, maent yn pwysleisio pwysigrwydd trin pobl â pharch a chwrteisi. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn arwain sgyrsiau gyda’r plant yn ddeallus, yn ôl gallu unigol bob plentyn.

Mae tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol gan bob un o’r ymarferwyr, sy’n sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r prosesau i'w dilyn. Mae’r gweithdrefnau a'r arferion hylendid yn effeithiol ac mae’r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol yn bwrpasol ac yn gwbl annibynnol.

Mae’r ymarferwyr yn cadw cofnodion trwyadl o unrhyw bryderon, damweiniau, digwyddiadau a gwybodaeth bersonol. Mae hyfforddiant yr holl ymarferwyr ynglŷn ag amddiffyn plant yn gyfredol ac yn ddefnyddiol wrth drafod unrhyw broblemau neu bryderon sy’n codi. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau â’r plant yn hynod effeithiol, ac mae perthynas hyfryd yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a’r plant. Mae defnydd yr ymarferwyr o arferion buddiol i gefnogi'r plant i wneud ffrindiau, rheoli eu teimladau, ac ymdopi â sefyllfaoedd anodd yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu'r polisi rheoli ymddygiad yn dda ac maent yn siarad â'r plant yn synhwyrol, ac mewn ffyrdd y maent yn eu deall. Er enghraifft, mae'r ymarferwr yn atgoffa grwpiau o blant i gydweithio'n ofalus ac i osgoi gwthio'i gilydd. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn modelu ymddygiad effeithiol ac yn dangos parch cyson tuag at y plant.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am anghenion a hoffterau pob plentyn, trwy weithredu ar wybodaeth gan rieni wrth iddynt gofrestru eu plant yn y lleoliad. Maent yn ymwybodol o gamau datblygu bob plentyn ac maent yn gweithredu'n effeithiol ar y camau nesaf yn nhaith dysgu plant unigol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau i gefnogi unrhyw blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf i ymdrin ag anghenion unigolion.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o ddathliadau ac achosion elusennol yn dda fel astudio’r Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd a manteisio ar gyfleoedd cenedlaethol i godi arian. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio’r Gymraeg yn rheolaidd gyda’r plant, sy'n cynnal a datblygu eu Cymraeg yn fwriadus.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae addysgu'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant yn effeithiol i ddatblygu ystod eang o fedrau pwrpasol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Mae anogaeth frwd yr ymarferwyr yn cymell y plant i gydweithio'n ddyfal, ac mae eu haddysgu deallus yn sbarduno'r plant i arbrofi'n hyderus wrth chwarae. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn herio'r plant i gydbwyso bwcedi o ddŵr ar glorian ac i adeiladu tyrau gyda siapiau tri-dimensiwn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'n ddysgwyr cynyddol annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn effeithiol yn ystod chwarae'r plant. Maent yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ymfalchïo yn eu llwyddiannau ac maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol gyda'r plant ar sut i wella'u hymdrechion. Maent yn plethu'r sgyrsiau myfyriol hyn gyda'u hasesiadau yn gelfydd, er mwyn cynllunio'n fwriadus y camau nesaf yn nysgu plant unigol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol am gyflawniadau'r plant i'w rhieni a'u gofalwyr ar gyfryngau cymdeithasol, trwy drafodaethau llafar ac mewn llyfrynnau cynnydd.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n drwyadl ac yn ysgogi'r plant i ddysgu trwy amrediad o heriau ymarferol. Maent yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n dilyn awgrymiadau a diddordebau'r plant yn llwyddiannus. Maent yn darparu gweithgareddau diddorol, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu medrau gwybyddol yn dda. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i rolio a thorri gwreiddiau, coesynnau a phetalau allan o does, i adlewyrchu sut mae blodyn yn tyfu.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd difyr i ddatblygu medrau llythrennedd y plant. Maent yn holi'r plant yn werthfawr wrth iddynt greu marciau gyda chreonau a sialc, ac maent yn herio'r plant i ddisgrifio'u lluniau yn fanwl wrth iddynt beintio. Fodd bynnag, nid yw'r llyfrau darllen yn hygyrch i'r plant yn yr adeilad, sy'n llesteirio eu profiadau darllen cynnar.

Mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau rhifedd effeithiol ar gyfer y plant. Maent yn cynnig cyfleoedd da i blant esbonio priodweddau siapiau a'u cyfatebu â thyllau mewn bocs, ac maent yn gosod tasgau pwrpasol i'r plant ddidoli a rhifo anifeiliaid y fferm. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd cyson i wella medrau digidol cynnar y plant, trwy ddefnyddio apiau addysgol ar lechi electronig a chyfarpar i reoli ceir ar drac.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu medrau corfforol llwyddiannus. Maent yn eu hannog i deithio a chydbwyso ar lwybr cul a cherrig camu, ac i ddringo a llithro ar gyfarpar anturus. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol ysgogol fel creu gwe pry copyn trwy dorri tyllau mewn papur â siswrn, a'i addurno. Yn ogystal, maent yn cymysgu ffrwythau a llysiau yn yr ardal chwarae rôl i greu cacen, cyn iddynt bobi'r cynhwysion yn y ffwrn a'r meicrodon.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a hanes Santes Dwynwen. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn fuddiol trwy astudio gwyliau arbennig, fel y Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd, a storïau diddorol a moesol o gyfandiroedd gwahanol y byd.

**Yr amgylchedd:**

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu yn dda ac mae'n cynnig cyfleoedd pwrpasol a gwerthfawr i'r plant ddysgu a chwarae tu mewn a thu allan i'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae, y cyfarpar, y teganau a'r adnoddau yn ysgogol ac yn addas ar gyfer oedran y plant.

Mae trefn yr adeilad yn caniatáu i'r plant symud o gwmpas yn rhydd a gwneud dewisiadau effeithiol o ran eu chwarae. Heblaw am fynediad i lyfrau, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu cadw ar lefel ymarferol er mwyn i bob plentyn eu cyrraedd yn hawdd ac yn annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar greu amgylchedd naturiol er mwyn creu naws ymlaciol o fewn y lleoliad. Maent yn goleuo'r ardaloedd gwahanol yn ddeallus wrth droi ambell olau i ffwrdd ac maent yn hongian defnydd o'r nenfwd i greu awyrgylch cartrefol a chlyd i'r plant.

Caiff lles y plant ei hyrwyddo'n fwriadus trwy'r dewis helaeth o deganau ac offer sydd ar gael yn yr ystafell chwarae ac yn yr ardal awyr agored. Mae'r ardal awyr agored yn ddiddorol ac yn cynnwys nifer o ardaloedd naturiol i blant ymchwilio ac i ddysgu'n annibynnol. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd i'r plant ddewis chwarae naill ai yn yr adeilad neu yn yr awyr agored o'u gwirfodd eu hunain.

Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae'r plant yn cael cyfle i fynd i'r tai bach a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol, sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid yn effeithlon.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gadw'n iach, trwy ddilyn ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr. Maent yn rhoi blaenoriaeth i asesu pob risg sy'n perthyn i'r ardaloedd mewnol ac allanol yn ddyddiol. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau hyn. Mae'r lleoliad yn lân a threfnus ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda iawn.

Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch. Ni all ymwelwyr fynd at unrhyw ran o'r lleoliad oni bai bod ymarferwr yn rhoi mynediad iddynt. Maent yn wyliadwrus wrth oruchwylio plant yn ystod yr holl weithgareddau i sicrhau eu diogelwch. Er enghraifft, maent yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod y plant yn gadael y lleoliad naill ai gyda rhiant neu ofalwr cydnabyddedig.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gweledigaeth glir yr arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio'n frwdfrydig i ddarparu gweithgareddau ysgogol, sy'n hybu dysgu'r plant yn fwriadus. Mae strategaethau arwain y lleoliad yn gadarn ac mae'r arweinwyr yn canolbwyntio'n ddyfal ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae'r arweinwyr yn cynllunio a rhagweld yn ddeallus i ddarparu amgylchedd diddorol ac adnoddau ysgogol. Maent yn cynnig gofal bugeiliol a theyrngar, sy'n creu

ymdeimlad o berthyn ymysg y plant a'r oedolion. O ganlyniad, mae'r awyrgylch gadarnhaol yn annog y plant i ymdrechu'n gyson wrth chwarae a dysgu.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r ymarferwyr yn awyddus i wella'u harferion er lles y plant, ac maent yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau'r arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae trefniadau rheolaidd yn eu lle i werthuso'u perfformiad, ac mae'r arweinwyr yn goruchwylio a gwerthuso gwaith yr ymarferwyr yn drwyadl. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod arferion recriwtio diogel yn cael eu gweithredu'n gywir.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau realistig ar gyfer eu hunain a'r ymarferwyr er mwyn cynnal safonau uchel. Maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella yn dda, trwy weithredu gweithdrefnau hunanwerthuso gwerthfawr. Mae'r targedau priodol ar gyfer gwelliant, sy'n deillio o'u gwerthuso rheolaidd, yn ddibynadwy. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r ardal allanol a gwella'r adnoddau TGCh. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau'n gyson i gyfoethogi arferion y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i safbwyntiau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau gwerthfawr gyda'r holl randdeiliaid, fel y mudiadau cefnogi, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando'n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu'r arferion cynllunio, er mwyn dilyn diddordebau'r plant yn effeithiol. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar awgrymiadau'r rhieni a'r gofalwyr yn ystyrlon, fel darparu lluniau o weithgareddau'r plant ar gyfryngau cymdeithasol diogel yn wythnosol.

Mae'r arweinwyr wedi ffurfio ystod o bartneriaethau cadarn yn lleol, sy'n cynnig profiadau difyr i'r plant. Er enghraifft, gwahoddwyd y gwasanaeth tân a swyddog diogelwch y ffordd i'r lleoliad, i drafod eu rolau yn y gymuned a'u gwaith gyda'r plant. Yn ogystal, mae'r berthynas gynhyrchiol iawn gyda'r ysgol yn paratoi'r plant i'r cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n dda. Maent yn defnyddio'r gyllideb a'r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn gall, fel ardal blannu a beiciau cydbwyso. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ystod o hyfforddiant perthnasol ar gael i'r ymarferwyr, sy'n gwella'u harferion addysgu a'u cynllunio o'r cwricwlwm.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/07/2022